




YSGOL HAFAN Y MÔR
Heywood Lane,
Dinbych y Pysgod / Tenby,
SA70 8BZ
☎ 01834-843248

admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk

 Ysgol Hafan y Mor, Dinbych y Pysgod



ysgolhafanymor.cymru



@hafanymortenby

01.06.18

Annwyl rieni

Sêr yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Eirianna, Ted, Bella, Sam, Mollie, Chloe and Iolo am fod yn sêr yr wythnos - 25.5.18!

Diweddariad ar enwau dosbarthiadau:

<u>Enw'r dosbarth</u>	<u>Dosbarth</u>	<u>Athro / Athrawes</u>
Cylch Meithrin Tonnau Bach	Darpariaeth plant 2oed + Darpariaeth plant 3oed (rhan amser sesiwn prynhawn) -	Miss A Davies + Mrs E Rossiter
Pysgod Chwim -	Meithrin (3oed rhan amser) boreau -	Miss C Jones
Sêr y Môr -	Derbyn -	Mrs S Phillips
Cregyn -	Blwyddyn 1 -	Mrs M Walters
Ynys Bŷr -	Blwyddyn 2 -	Mrs S King
Harbwr -	Blynyddoedd 3 + 4 -	Mrs E Hughes
Cychod -	Blynyddoedd 4, 5 + 6 -	Mr J Thomas

Presenoldeb

Ein targed presenoldeb yw 95.1%. Dylai fod gan bob plentyn ffigwr yn uwch na 95%. Wrth gwrs, ni all eich plant helpu i fod yn sâl ond gofynnwn yn garedig i chi beidio â chymryd gwyliau yn ystod y tymor neu fynd â'ch plant y tu allan i'r ysgol heb reswm da oherwydd bod hyn yn effeithio ar addysg eich plant. Bydd y pwyllgor presenoldeb a swyddogion presenoldeb yr Awdurdod Lleol yn monitro presenoldeb plant ysgol yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn.

Y ffigwr presenoldeb hanner tymor diwethaf oedd: **96.12%**. Diolch am eich ymdrechion i gynyddu'r ffigwr presenoldeb. Profwyd bod presenoldeb yn cael effaith uniongyrchol ar gyrhaeddiad a lles addysgol disgybl. Mae presenoldeb yn parhau i fod yn ganolbwynt i Estyn a byddwn yn cael ein barnu ar hyn pan gawn ein harolygu.

Cofiwch, bod diwrnod yr ysgol yn cychwyn yn brydlon am 8.50am ac mae angen rhoi gwybod i ni cyn 9.20am os yw'ch plentyn yn absennol o'r ysgol.

Protocol Newydd am ddisgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr

Os yw'ch plentyn yn hwyr bydd ef / hi yn cael ei hebrwng i ddosbarth (meithrin / derbyn) gan aelod o staff neu gerdded i ddosbarth ar ben ei hun (Bl.1 - Bl. 6). Gofynnwn yn garedig i rieni / gofalmwyr i barchu hyn ac i deall ei fod yn rhan o weithdrefnau diogelu ein hysgol. Os yw'ch plentyn yn hwyr ar fwy na 10 achlysur, byddwch yn derbyn llythyr yn tynnu eich sylw at hyn.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Llongyfarchiadau i Emily, blwyddyn 6 chwaraeodd yn eithriadol o dda yng nghystadleuaeth chwybrennau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, dydd Llun, Mai 28ain. Er nad chyrhaeddodd Emily y llwyfan, rydym yn falch iawn o'i hymdrechion! Roedd hi hefyd yn fraint i weld gemwaith Evelyn (blwyddyn 3) yn cael ei harddangos yn y babell Celf a Chrefft wrth iddi ddod yn 3ydd - da iawn!

Siarter Iaith Gymraeg

Fel rhan o'n siarter iaith Gymraeg rydym yn annog y disgyblion i wrando ar gerddoriaeth Gymreig a dysgu rhai caneuon Cymraeg. Mae dau o'r caneuon i'w glywed ar 'You Tube' trwy ddilyn y dolenni isod:

Lleucu Llwyd (Sesh Bach Noson Lawen) - <https://www.youtube.com/watch?v=26doK6C5b2k>

Lawr ar lan y Mor - <https://www.youtube.com/watch?v=xm73ObWltcc>

Gall blant ifancach gwrando ar rai hwyangerddi: <https://www.youtube.com/watch?v=pz6tNZvfWVY>

Defnyddio technoleg trwy gyfrwng y Gymraeg

Er mwyn hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg, mae taflenni apps defnyddiol wedi'u cynnwys ar waelod y bwletin wythnosol.

Menter i ddefnyddio llai o blastig!

Yn dilyn cyfarfod cyngor ysgol yr wythnos diwethaf, penderfynwyd gan y disgyblion y byddent yn hoffi cefnogi ymdrechion lleihau'r defnydd o blastig yn yr ysgol trwy ddefnyddio poteli llaeth gwydr ar gyfer llaeth y Cyfnod Sylfaen yn lle poteli plastig. Rydym wedi cysylltu â'r adran arlwygo a Mathias Dairies sydd yn hapus iawn i gefnogi ein menter Eco. O ddydd Llun, 4ydd o Fehefin bydd gan bob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen (Meithrin - bl. 2) llaeth mewn cwpanau y gellir eu hailddefnyddio.

Clybiau allgyrsiol ar brynhawn dydd Mercher a dydd Iau.

Hanner tymor hwn mi fyddwn yn cynnal clybiau allgyrsiol canlynol, ni fydd tâl am y clybiau.

Nos Fercher 3.05-4.15yp

Blwyddyn 5 a 6: Campau'r Ddraig (Chwaraeon)

Blwyddyn 3 a 4: Clwb Natur

Blwyddyn 1; Yoga *Nodwch os gwelwch yn dda, disgyblion blwyddyn 1 sydd yn cymryd rhan yr hanner tymor hwn

Nos Iau 3.05-4.00yp

Bl. 4, 5 a 6: Pêlwrwyd

Nos Iau 3.05-4.30yp

Blwyddyn 2 (grwpiau penodol **Leoni, Elsie, Lulu, Daisy, Phoebe, Owen, Ollie, Kaster**): Coginio (*Casglwch eich plentyn o'r ystafell coginio sydd â drws yn agor allan i faes parcio'r staff.*)

Gwisg ysgol a dillad ar goll - Gofynnaf yn garedig i rieni labelu dillad eu plentyn. Mae gennym rai eitemau o wisg ysgol sydd ar ôl yn yr ysgol sydd heb enwau arnynt. Byddwn hefyd yn gofyn i chi edrych ar eitemau o ddillad sydd gennych gartref, i wirio mai rhai eich plentyn ydynt, gan fod nifer o rieni wedi bod i'r ysgol yn chwilio am eitemau o wisg ysgol a dillad a oedd wedi'u labelu (siacedi / hetiau / t-shirts) ac sydd ar goll.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad

Mrs Griffiths

Pennaeth

Wythnos yn cychwyn: 04.06.18		Week commencing: 04.06.18	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau		Events and News Bulletin	
<u>Dyddiad</u>	<u>Digwyddiad</u>	<u>Date</u>	<u>Event</u>
04.06.18 - 07.06.18	Cwrs Croeso i ddisgyblion bl.6 bydd yn symud i Ysgol y Preseli yn mis Medi. Manylion wedi'u rhannu eisoes.	04.06.18 - 07.06.18	Yr. 6 pupils who will be transferring to Ysgol y Preseli in September will be attending the 'Welcome Course'. Details have already been circulated regarding the course.
04.06.18 Dydd Llundun	Cystadleuaeth criced cymysg. Manylion wedi dosbarthu eisoes ac wedi danfon trwy ebost.	04.06.18 Monday	Mixed kwik cricket competition. Details have already been circulated and emailed to relevant families.
04.06.18 Dydd Llundun	Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs Hughes a Mr Thomas (Bl. 3 - 6) Rhaid i bob plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	04.06.18 Monday	PE lessons for Mrs Hughes & Mr Thomas' class (Year 3 - 6) All pupils must bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
06.06.18 Dydd Mercher	Clybiau ar ôl ysgol (3.05 - 4.15yp) Clwb Chwaraeon (Sports) - Bl. 5 & 6 Clwb Natur (Nature) - Bl. 3 & 4 Yoga - Bl. 1	06.06.18 Wednesday	After school clubs (3.05 - 4.15yp) Clwb Chwaraeon (Sports) - Yr. 5 & 6 Clwb Natur (Nature) - Yr. 3 & 4 Yoga - Yr. 1
07.06.18 Dydd Iau	Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs King a Mrs Walters (Bl. 1 a 2) Rhaid i bob plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	07.06.18 Thursday	PE lessons for Mrs King & Mrs Walters' class (Year 1 & 2) All pupils must bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
07.06.18 Dydd Iau	Clybiau ar ôl ysgol Clwb Coginio (Cooking Club) - Bl. 2 gorffen am 4.30yp Leoni, Elsie, Lulu, Daisy, Phoebe, Owen, Ollie, Kaster Clwb Pêlryd (Netball) gorffen am 4yp Bl.4, 5 & 6	07.06.18 Thursday	After school club Clwb Coginio (Cooking Club) - Bl. 2 finishes at 4.30pm Leoni, Elsie, Lulu, Daisy, Phoebe, Owen, Ollie, Kaster Clwb Pêlryd (Netball) finishes at 4yp Yr.4, 5 & 6
08.06.18 Dydd Gwener	Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs Phillips (Derbyn) Rhaid i bob plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	08.06.18 Friday	PE lessons for Mrs Phillips' class (Reception) All pupils must bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
08.06.18 Dydd Gwener	Gwersi nofio i ddosbarth Mrs King (Ynys Bŷr). Rhaid cofio gwisg nofio, tywel, het a goggles.	08.06.18 Friday	Swimming lessons for Mrs King (Ynys Bŷr). Remember to bring your swimming costume, towel, swimming hat and goggles.
Poteli Dŵr - Gofynnwn yn garedig i chi wneud yn siwr bod eich plentyn yn dod â photel ddŵr i'r ysgol bob dydd.			
Eli haul - Sicrhewch fod pob disgybl yn gwisgo eli haul i'r ysgol, dod â photel sbâr yn eu bag er mwyn rhoi rhagor ymlaen yn ystod y dydd a dod â het yn ystod tymor yr haf.			

Gwybodaeth - Information

Presenoldeb wythnos yn gorffen: 25.05.18 - 95% (Targed yr Ysgol: 95.1%)

Attendance week ending: 25.05.18 - 95% (School's attendance target: 95.1%)

Reg			
Reg	Authorised Absence	Unauthorised Absence	Attended
Cregyn	4.29	0.95	94.76
Cychod	7.27		92.73
Ynys Byr	0.95	4.76	94.29
Yr Harbwr	2.08		97.92

**Excellent news- we're above the school target this week and are green rated again!
Thank you.**

Gwybodaeth ynglŷn â dyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)

Gwyliau Haf 23.7.18 - 31.8.2018

HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion) 3.9.2018

GWERSI ADDYSG GORFFOROL

Noder os gwelwch yn dda, rhaid i **bob** plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.

Dosbarth Mr Thomas (Cychod) + Mrs Hughes' (Harbwr) Class - Dydd Llun / Monday

*Dosbarth Meithrin Pysgod Chwim (Miss Jones) / *Nursery Class Pysgod Chwim (Miss Jones) -
Dydd Mawrth / Tuesday

**Nid oes angen iddynt wisgo cit ymarfer corff ffurfiol / These pupils do not need to wear formal PE kit*

Dosbarth Mrs King (Ynys Bŷr) + Mrs Walters (Cregyn) Class - Dydd Iau / Thursday

Dosbarth Mrs Phillips (Sêr y Môr) Class - Dydd Gwener / Friday














Dyddiadau o flaen llaw		Future dates	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau		Events and News Bulletin	
<u>Dyddiad</u>	<u>Digwyddiad</u>	<u>Date</u>	<u>Event</u>
20.6.18	Dyddiad 1 (os fydd y tywydd yn caniatáu) ar gyfer mabolgampau'r ysgol.	20.6.18	1 st date (if weather permits) Whole school sports day.
21.6.18	Diwrnod pontio ar gyfer disgyblion Bl. 6 bydd yn mynychu Ysgol Caer Elen (ysgol newydd Hwlfordd) ym mis Medi.	21.6.18	Transition day for yr. 6 pupils attending Ysgol Caer Elen in September (new Welsh medium secondary in Haverfordwest).
21.6.18	Nyrs yr ysgol - Kirstie Cower yn ymweld â merched bl.5 a 6 a bechgyn bl. 6 i siarad gyda nhw am lasoed.	21.6.18	Kirstie Cowper, school nurse will be visiting the school to talk to yr. 5 & 6 girls and yr.6 boys about puberty.
27.6.18	Dyddiad 2 (os nad oedd y tywydd yn caniatáu dyddiad 1) ar gyfer mabolgampau'r ysgol.		2 nd date (if the weather was not favourable on the 1 st date) Whole school sports day.
28.6.18	Proms Ysgolion Cynradd a Chôr blwyddyn 6 yn ysgol Syr Thomas Picton, Hwlfordd.	28.6.18	Primary Schools Prom and year 6 choir at Sir Thomas Picton school, Haverfordwest.
29.6.18	Gwyl pêldroed masnach deg. Bydd manylion yn dod wrth Mr Thomas.	29.6.18	Fair trade football festival. Further details will be sent from Mr Thomas.
3.7.18	Cyngerdd cerddorfa'r ysgol am 9.30yb yn neuadd yr ysgol.	3.7.18	School orchestra concert at 9.30am in the school hall.
6.7.18	Diwrnod pontio ysgolion uwchradd i ddisgyblion bl. 6	6.7.18	Yr. 6 transition day for all secondary schools.
9-11/07.18	Gwibdaith bl. 5 a 6 i ganlofan yr Urdd Caerdydd. Bydd manylion yn dod wrth Mr Thomas.	9-11/07.18	Yr. 5 & 6 residential trip to the Urdd Centre in Cardiff. Further details will be sent from Mr Thomas.
17.7.18	Picnic ar y traeth i ddisgyblion llawn amser yr ysgol (tywydd yn caniatáu)	17.7.18	Beach picnic for all full-time pupils (weather permitting)
18.7.18	Gwasanaeth ffarwelio bl.6 am 2yp gyda the prynhawn yn dilyn y gwasanaeth i rieni blwyddyn 6.	18.7.18	Year 6 leavers assembly at 2pm with afternoon tea for year 6 parents to follow.
19.7.18	Diwrnd hwyl blwyddyn 6.	19.7.18	Year 6 fun day.



[Dyddiad newydd wedi'i ychwanegu - new date added](#)

Apiau a Gwefannau Defnyddiol / Useful Apps and Websites
 Apiau addas i'r Cyfnod Sylfaen / Suitable apps for the Foundation Phase.



<p>Tric a Chlic</p> 	<p>Llyfrau Magi Ann</p> 	<p>Cyfri gyda Cyw</p> 	<p>Cyw a'r Wyddor</p> 	<p>Daisy the Dino</p> 
<p>Alun yr Arth</p> 	<p>Beebot</p> 	<p>Celf gyda Sam</p> 	<p>Puppet Pals</p> 	<p>Apiau arall Cyw</p> 
<p>Llythrennau (Big Clic)</p> 	<p>Rhifedd (Big Clic)</p> 	<p>Dilynwch ni ar Drydar Follow us on Twitter @hafanymortenby </p>		

Apiau addas i Gyfnod Allweddol 2 / Suitable Apps for Key Stage 2

<p>Pyramid</p> 	<p>Ap Treiglo</p> 	<p>Llawysgrifen (Big Clic)</p> 	<p>Ap Gwilym</p> 	<p>Math Duel</p> 
<p>Stwnsh</p> 	<p>Guto Nyth Bran</p> 	<p>Brwydr Croeseiriau</p> 	<p>Prezi</p> 	<p>Nessy</p> 
<p>Garage Band</p> 	<p>iMovie</p> 	<p>HWB</p> 	<p>Purple Mash</p> 	<p>S4C & Clic</p> 